# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Gorffennaf 13eg am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol:  Huw Charles (is-gadeirydd), Jean Roberts, Gwynfryn Williams, Rhys Richards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Euros Puw, Arwel Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 25ain 2022) - **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant **- DIM**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Cyfethol aelod newydd **- DERBYNIWYD LLYTHYR GAN RHYS HYWEL JONES YN DATGAN DIDDORDEB MEWN YMUNO A'R CYNGOR. CYTUNWYD YN UNFRYDOL I'W GYFETHOL FEL CYNGHORYDD.**
b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf. **– NODWYD.**

## <u>iv) Gohebiaeth</u>

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd
ii) Ymgynghori ar eu cynlluniau Rhwydwaith Teithio Llesol **- CYTUNWYD I DDOSBARTHU'R E-BOST I'R CYNGHORWYR NODI EU CEFNOGAETH AR GYFER CWBLHAU'R LLWYBR O'R BALA I LANUWCHLLYN.**
iii) Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy.
iv) Gweithdai Ardal Ni 2035 **- CYTUNODD Y CYNGHORWYR I FYNYCHU'R GWEITHDY YM MIS MEDI.**

<u>b) Cyfoeth Naturiol Cymru.</u>
i) Sesiwn galw fewn yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, 11/08/22.
ii) Diweddariad Diogelwch ar Gronfa Ddŵr Llyn Tegid.

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Cyngor Tref Y Bala - trefniadau parcio mynwent Llanycil **- ROEDD Y CLERC EISOES WEDI CYSYLLTU Â BYD MARY JONES I OFYN A OEDD POSIB AGOR EU MAES PARCIO AR GYFER TRIGOLION LLEOL.**
ii) Gwahoddiad i noson agoriadol Cylch Meithrin Garn Bach, Frongoch – **CYTUNWYD I ANFON NEGES YN DYMUNO'N DDA I'R CYLCH YN EU CARTREF NEWYDD.**
iii) Llywodraeth Cymru – Canllaw'r Cynghorydd Da.
iv) The Anne Robson Trust Helpline - cyflwyniad i'r gwasanaeth.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>**
NP5/72/65H - Newid defnydd glaswelltir wedi'i wella ac adeiladau diangen er mwyn ymestyn maes carafanau presennol. Maes Carafanau Plas Moelgarnedd, Llanycil.
NP5/72/248 - Dau uned gwyliau a gosod uned trin carthion. Tir ger Boch y Rhaedr, Arenig.

**DIM GWRTHWYNEBIAD.**

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - **CYMERADWYWYD**
b) Taliadau - Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE - **CYMERADWYWYD**

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
**CYTUNWYD I ANFON AT BARC CENEDLAETHOL ERYRI YN CWESTIYNU'R OPSIWN O DALU I DYNNU'R AMOD 106 I FFWRDD A LLE'R OEDD YR ARIAN YN MYND.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEDI 13EG YN NEUADD MAESYWAEN.**

*Bethan Jones,* Clerc